Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

**TEITL** **Rheoliadau Systemau Trafnidiaeth Deallus (Ymadael â'r UE) 2018**

**DYDDIAD** **04 Rhagfyr 2018**

**GAN** **Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip**

**Rheoliadau Systemau Trafnidiaeth Deallus (Ymadael â'r UE) 2018**

**Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio:**

- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn 2011/453/EU
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 885/2013
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 886/2013
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2015/962
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2017/1926
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2016/209
- Rheoliad (CE) Rhif 2017/2380 Senedd Ewrop a'r Cyngor
- Atodiad XIII i'r Cytundeb ar yr Ardal Economaidd Ewropeaidd.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Ni fydd y diwygiadau arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/nac ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

**Diben y diwygiadau**
Diben yr offeryn statudol yw dileu darpariaethau yn neddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymdrin â Systemau Trafnidiaeth Deallus, gan ddefnyddio pwerau yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae deddfwriaeth yr UE ar Systemau Trafnidiaeth Deallus yn sicrhau bod systemau trafnidiaeth deallus a'r data a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â hwy yn cyd-fynd â'i gilydd, eu bod yn gallu rhyngweithredu a bod modd parhau i'w defnyddio. Mae'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth i ddata fod ar gael i'w gweld a'u rhannu ar fformat safonedig cyffredin drwy bwynt mynediad cenedlaethol.

Drwy ddirymu'r ddeddfwriaeth uniongyrchol gan yr UE a ddargedwir, bydd modd mynd i'r afael â diffygion technegol a fydd yn codi o ganlyniad i'r ffaith bod y DU yn

ymadael â'r UE. Bydd gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol yn parhau i gael eu bodloni hefyd drwy fesurau gweinyddol ac felly, bernir bod diwygio'r ddeddfwriaeth yn anghymesur.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau i'w gweld yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-intelligent-transport-systems-eu-exit-regulations-2018

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi sy'n gysylltiedig â'r dirymu, ac nid yw sylwedd y dirymiad yn sensitif yn wleidyddol. Felly, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cytuno i weithredu fel hyn yn sicrhau y bydd modd gweithio mewn ffordd gydlynol pryd bynnag y bo modd wrth baratoi'r llyfr statud fel ei fod yn gweithio'n iawn ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Bydd gweithredu fel hyn yn hyrwyddo eglurder a hygyrchedd deddfwriaeth ar draws y DU. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.